Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

National Assembly for Wales
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee

Lesley Griffiths AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Materion Gwledig,

5 Hydref 2018

Annwyl Lesley,

Dilyn y sesiwn graffu ar 4 Hydref

Diolch am fod yn bresennol yn ein sesiwn graffu ar 4 Hydref ar adroddiad y Pwyllgor, *Ailfeddwl am fwyd yng Nghymru: Caffael Cyhoeddus mewn cysylltiad â Bwyd*, ac ar faterion eraill yn eich portffolio.

Yn y cyfarfod fe wnaethoch gytuno i:

- rannu ag Aelodau'r Pwyllgor gopi o'ch gohebiaeth ddiweddar â Michael Gove, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig mewn perthynas â'r darpariaethau ar yr ardoll cig coch o fewn Bil Amaethyddiaeth y DU;

- rhoi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor am y camau rydych wedi'u cymryd, ac yn bwriadu eu cymryd, i gynyddu gallu ac arbenigedd yn eich adran i baratoi ar gyfer ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys:

    i. cadarnhad o gyfanswm nifer y staff a recriwtiwyd a'r swyddi gwag sydd eto i'w llenwi, a

    ii. chyfanswm y dyraniad cyllid o fewn eich cyllideb adrannol i dalu costau staff ychwanegol, a'r gost gysylltiedig o ran cyfle; ac

- yn rhoi eglurhad ar y cyfnod amser y bydd datgymhwyso paragraff 6.2 o TAN 1 yn weithredol ar ei gyfer.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCCERA
0300 200 6565

Yn ystod ein trafodaeth breifat yn dilyn y sesiwn graffu, cytunodd y Pwyllgor y byddai hefyd yn hoffi cael rhagor o fanylion gennych ar y camau yr ydych yn bwriadu eu cymryd i ymgysylltu â'r sector bwyd masnachol i fynd i'r afael â gwastraff bwyd.

Edrychaf ymlaen at gael ymateb gennych.

Yn gywir,

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig